OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1259

Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

RHAN 3

Talu grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru

Y weithdrefn ar gyfer gwneud sylwadau mewn cysylltiad â phenderfyniad hysbysedig

12.—(1) Caiff y ceisydd wneud sylwadau mewn perthynas â phenderfyniad hysbysedig o dan reoliad 7(2) neu 11(2).

(2) Caniateir pennu ar ba ffurf ac ym mha fodd y mae rhaid gwneud sylwadau, gan gynnwys y dogfennau neu'r wybodaeth arall sy'n ofynnol, a'r terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am eu penderfyniad yn dilyn sylwadau a wneir o dan baragraff (1).